CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

# Rhondda Cynon Taf

# Anghenion Dysgu Ychwanegol

# Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

# Model Darparu Gwasanaeth ar gyfer Cymorth yn yr Ysgol

Medi 2022

## Introduction

Mae llwybrau atgyfeirio at Wasanaethau Mynediad a Chynhwysiant wedi bodoli ers cryn amser er mwyn rhoi cymorth i ysgolion i ddatblygu eu harferion cynhwysiant. Mae'r llwybrau yma hefyd yn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth fwyaf priodol ar waith ar gyfer unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol mwy cymhleth. Yn unol â gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, bydd ysgolion yn parhau i ddatblygu eu darpariaeth i adlewyrchu anghenion unigryw y disgyblion yn eu hysgol nhw.

Mae modd defnyddio'r canllaw yma i helpu ysgolion i nodi ble mae ganddyn nhw arbenigedd a darpariaeth briodol, a ble mae angen hyfforddiant a datblygiad i sicrhau bod gan bob disgybl yn RhCT fynediad at ddarpariaeth ddysgu ychwanegol deg.

*Mae'r cyfeirnodau yn y ddogfen yn ymwneud â Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.*

## Penderfynu a oes angen cymorth wedi'i dargedu ar blentyn

Pan fydd disgybl yn dangos ei fod yn gwneud llai o gynnydd na'r hyn a ddisgwylir, dylai lleoliadau ac ysgolion edrych i mewn i unrhyw resymau sylfaenol am hyn. Dylid gwneud hyn ar y cyd â'r plentyn neu'r person ifanc, ei rieni neu'i warcheidwaid ac unrhyw oedolion eraill sy'n rhan o'i ofal, ei iechyd a'i lles. Dylai lleoliadau ac ysgolion ystyried y cwestiynau allweddol canlynol mewn perthynas â chynnydd.

1. **A yw'r cynnydd yn sylweddol arafach na chynnydd ei gyfoedion sy'n cychwyn o'r un llinell sylfaen?**

2. **A yw'r cynnydd yn methu â chyfateb neu ragori ar gyfradd cynnydd blaenorol y plentyn neu'r person ifanc? neu,**

3. **A yw'r cynnydd wedi methu â chau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'i gyfoedion, er gwaethaf cymorth sydd wedi'i ddarparu er mwyn cau'r bwlch hwnnw (megis addysgu gwahaniaethol)?**

yn seiliedig ar Baragraff 20.8

**Ystyried a oes gan blentyn/person ifanc Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac felly a oes angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY)**

20.9. Dyw cynnydd araf a chyrhaeddiad gwael ddim o reidrwydd yn golygu bod gan blentyn neu berson ifanc ADY, a fydd hynny ddim yn arwain yn awtomatig at benderfyniad bod gan y disgybl ADY. Yn yr un modd, rhaid peidio â chymryd yn ganiataol bod cyrhaeddiad yn unol ag oedran cronolegol yn golygu bod dim ADY.

20.10 Mae'r cynnydd y mae plant a phobl ifainc yn ei wneud yn amrywio - mae hynny'n anochel, felly dydy'r ffaith bod plentyn neu berson ifanc yn tangyflawni o gymharu ag eraill o'r un oed, ar ei ben ei hun, ddim yn brawf o ADY. Wrth ystyried anghenion y plentyn neu'r person ifanc, efallai y daw i'r amlwg fod y plentyn neu'r person ifanc mewn gwirionedd yn gwneud cynnydd da o bwynt sylfaen isel. Yn wir, bydd wastad rhai disgyblion â lefelau cyrhaeddiad a gallu is sy'n gwneud cynnydd cyson, ond ar gyfradd arafach. Bydd angen cymorth arnyn nhw i gael mynediad at gwricwlwm gwahaniaethol i wneud cynnydd addas, ond efallai na fydd y cymorth yna o reidrwydd yn gyfystyr â DDdY.

20.11 Bydd angen i'r rheiny sy'n ystyried y dystiolaeth gofyn i'w hunain a yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod gan y plentyn anghenion sylfaenol eraill yn hytrach na ADY ac os felly, a oes ffyrdd eraill o gynorthwyo gydag anghenion y plentyn neu'r person ifanc? A ddylai gwasanaethau eraill fod yn rhan o fywyd y person ifanc megis seicolegydd addysg, gwasanaethau lles addysg, gwasanaethau cymdeithasol neu gyrff iechyd?

20.12 Yn wir, mae modd i lawer o ffactorau gyfrannu at gyflawniad academaidd gwael neu gynnydd annigonol. Ymhlith y ffactorau posibl yma mae; presenoldeb gwael, peidio â chael cyfleoedd dysgu digonol, symud dosbarth neu newidiadau aml i staff addysgu neu'r amgylchedd dysgu, neu heriau cymdeithasol a theuluol ehangach. Er bod modd i'r ffactorau yma fod yn wir i blentyn neu berson ifanc ag ADY, gan gyfrannu hyd yn oed at ADY, dydyn nhw ddim o reidrwydd yn golygu bod gan y plentyn neu'r person ifanc ADY.

20.13. Er mwyn sefydlu pam mae cyflawniad academaidd yn wael, neu gynnydd yn annigonol, gallai fod yn ddefnyddiol ystyried a yw lleoliadau ac amgylcheddau gwahanol yn achosi i'r plentyn neu'r person ifanc i ddangos ymddygiad gwahanol neu allu gwahanol i ddysgu. Pan fo plentyn neu berson ifanc eisoes yn hysbys i asiantaeth arall, er enghraifft gwasanaethau cymdeithasol, gallai fod yn ddefnyddiol gweithio'n agos gyda nhw. Bydd edrych yn fanwl i mewn i'r gwahaniaeth yn y dystiolaeth sy'n cael ei darparu gan wahanol unigolion/asiantaethau yn rhoi dealltwriaeth fwy cywir i ni o anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Mae hyn hefyd yn wir pan mae'r plentyn neu'r person ifanc mewn gwahanol leoliadau. Os oes gwahaniaeth amlwg, mae'n bosibl bod angen

ymgynghori â gweithwyr proffesiynol sydd â'r arbenigedd perthnasol i ystyried anghenion y plentyn neu'r person ifanc mewn ffordd gyfannol.

20.14. Lle nad yw'r cynnydd yn ddigonol, bydd angen cymryd rhywfaint o gamau ychwanegol neu wahanol i alluogi'r disgybl i ddysgu mewn modd mwy effeithiol. Yn aml, yr ymateb cyntaf i gynnydd annigonol fyddai addysgu wedi'i dargedu'n benodol at feysydd sy'n wendid i'r disgybl. Mae disgwyl i bob lleoliad addysg ddefnyddio dulliau addysgu gwahaniaethol, neu ddefnyddio ymyriadau eraill penodol sydd wedi'u cynllunio i sicrhau cynnydd gwell i bob disgybl. Yn wir, bydd angen gwahaniaethu rhyw agwedd o addysg y rhan fwyaf o blant a phobl ifainc ar ryw adeg. Dyma elfen sylfaenol ac arferol o addysgu ansawdd uchel.

20.15. Dydy addysgu gwahaniaethol o'r fath ddim yn gyfystyr â DDdY, a dydy'r ffaith bod angen dull gwahaniaethol ar blentyn neu berson ifanc  ddim yn golygu bod ganddo ADY. Mae DDdY yn cwmpasu darpariaeth addysgol neu hyfforddiant ychwanegol neu wahanol, sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol.

**Ymateb Graddedig**

Mae'r Cod yn gosod persbectif gwahanol ar ymateb graddedig i'r ffordd y cafodd ei ddehongli'n draddodiadol, sef un sy'n dilyn llwybr dros amser gydag amlder cynyddol ac ymyrraeth ddwys.

*20.23. Dylai ysgolion a gynhelir, SAB ac awdurdodau lleol fabwysiadu ymateb graddedig mewn perthynas â phlant a phobl ifainc ag ADY, gan ddefnyddio ystod eang o strategaethau.* ***Mae hyn yn golygu y dylai'r DDdY fod ar y lefel isaf sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc sydd wedi'i nodi. Yn benodol, dylai ysgolion a SAB wneud defnydd llawn o'u hadnoddau cyn cyflwyno arbenigwr, lle bo hynny'n angenrheidiol, i fynd i'r afael â'r anawsterau y gallai plentyn neu berson ifanc fod yn eu profi****.*

*20.24. Mewn llawer o achosion bydd y DDdY cychwynnol yn golygu bod anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu diwallu neu eu datrys yn llawn. Dim ond ar gyfer y plant neu'r bobl ifainc hynny y mae eu cynnydd yn parhau i beri pryder, y mae'n debygol y bydd angen cynyddu neu newid y ddarpariaeth. Dros amser, ac os yw ymyriadau'n llwyddiannus, mae'n bosibl y bydd angen llai yn hytrach na mwy o DDdY ar rai plant neu bobl ifainc.*

Mewn ymateb i hyn, mae'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu a Seicoleg Addysg wedi adolygu'r Modelau Darparu Gwasanaeth (Llwybrau yw'r gair ffurfiol rydyn ni'n ei ddefnyddio), er mwyn rhoi gwell cymorth i ysgolion roi'r diffiniad newydd yma ar waith, fel sy wedi'i nodi isod.

**Y ffordd orau o ddefnyddio cymorth y Gwasanaeth Seicoleg Addysg (GSA) a'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu (GCD)**

Ar adegau, dydy swyddogaethau'r ddau wasanaeth ddim i weld yn wahanol iawn i'w gilydd, ond mae'r canllawiau isod yn ddefnyddiol i ysgolion i benderfynu ar y gwasanaeth sydd fwyaf perthnasol iddyn nhw yn y lle cyntaf. Wrth i ymateb graddedig priodol ddatblygu, mae cydweithio rhwng y gwasanaethau hefyd yn gallu bod yn fuddiol (e.e. dull amlasiantaethol)

| Swyddogaeth y Gwasanaeth Seicoleg Addysg | Swyddogaeth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu |
|---|---|
| Mae anghenion y disgybl yn gymhleth ac yn amlochrog. Hoffai'r ysgol eglurder ynghylch y prif rwystr i ddysgu ac mae angen ystyried cymhlethdod, natur hirdymor a pha mor eithriadol yw anghenion dysgu'r disgybl. | Mae'r ysgol yn teimlo'n hyderus am natur sylfaenol Anghenion Dysgu Ychwanegol disgybl (e.e. Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd, Ymddygiad, Llythrennedd, Nam ar y Clyw ac ati), ond mae'n ansicr ynghylch sut i ddiwallu'r anghenion yma. |
| Bydd cymorth cychwynnol yn annog myfyrio a chwestiynu er mwyn archwilio syniadau a damcaniaethau. Bydd y rhain yn llywio gwell dealltwriaeth o anghenion cymhleth disgybl a sut mae'r anghenion yma'n effeithio ar ei ddysgu. | Bydd cymorth cychwynnol yn darparu cyngor, arweiniad a dysgu proffesiynol penodol i ddiwallu anghenion disgybl. |
| Bydd y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, ysgol a rhieni/gwarcheidwaid (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill os ydyn nhw'n hysbys) yn edrych yn fanwl ar brif agweddau profiad dysgu'r disgyblion, yn cytuno arnyn nhw, ac yn ystyried beth sy'n gweithio a pha rwystrau sydd. Bydd llais y disgybl yn rhan allweddol o'r drafodaeth. Bydd cynllun gweithredu clir a phwrpasol yn cael ei lunio. | Bydd staff y Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn amlinellu strategaethau a dulliau i helpu'r ysgol i ymateb i anghenion penodol disgyblion a rhoi DDdY effeithiol ar waith. |
| Bydd y Seicolegydd Addysg yn cydweithio ag oedolion allweddol sy'n ymwneud â'r plentyn ac yn sicrhau bod seicoleg, ymchwil a gwybodaeth am ddatblygiad cyfan y plentyn, yn ffurfio tystiolaeth a fydd yn sail i gynllun gweithredu, a bod ffordd glir ymlaen. | Bydd y Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn darparu cyngor a gwybodaeth arbenigol yn eu maes arbenigedd i wella dealltwriaeth ac ymarfer staff. |

# Model Gweithredu'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg

**Gweithio systemig**

Mae cymorth i ysgolion ar y lefel yma'n canolbwyntio'n bennaf ar ymgorffori arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ogystal â pholisi a gweithdrefnau cadarn.

**Cymorth Cyffredinol/wedi'i Dargedu gan yr Ysgol**

Datblygu dulliau ataliol gyda'r nod o wella'r ddarpariaeth gyffredinol sydd ar gael mewn ysgolion. Mae'r cymorth yma i ysgolion yn ceisio gwella dealltwriaeth a hyder staff wrth ddiwallu anghenion dysgu disgyblion.

**Archwilio Anghenion**

Darparu cymorth i ysgolion i helpu i sicrhau eu bod nhw'n gweithredu ymateb graddedig cadarn. Mae'r gwasanaethau hefyd yno ddatblygu cynlluniau gweithredu pwrpasol ar gyfer disgyblion, gan ddefnyddio adnoddau sy'n bresennol yn yr ysgol yn barod a gan seilio'r cynllun ar broffil anghenion.

Dylai'r gwaith yma hwyluso gweithredoedd pwrpasol i ddiwallu anghenion disgyblion unigol a'r sawl sy'n rhoi cymorth iddyn nhw

**Diwallu Anghenion**

Mae'r gwaith yma'n help i ddeall yn well natur sylfaenol anghenion dysgu ychwanegol y disgybl, a/neu ddifrifoldeb ei anghenion. Bydd y gwaith yma'n cynnwys proses asesu fanwl a all gynnwys amrywiaeth o wahanol ddulliau, yn dibynnu ar anghenion sylfaenol y disgybl a sut mae'n cyflwyno ar hyn o bryd.

---

**Gweithio Systemig**

- Cyfarfodydd Cynllunio ac Adolygu Cydweithredol
- Pecynnau Hyfforddiant Craidd
- Pecynnau Hyfforddiant Craidd

**Cymorth Ysgol Cyffredinol / wedi'i Dargedu (Cam A) - Datrys Problemau a Myfyrio**

Mae ymyrraeth yn anhysbys gyda chofnodion o'r camau cytunedig i'w cadw gan yr ysgol.

Does dim angen caniatâd rhieni.

Mae angen atgyfeiriad GSA **trwy'r PORTH.** Ei bwrpas yn bennaf yw rhoi cymorth i'r rhai sy'n poeni fwyaf am ddisgybl (athro, rhiant/gwarcheidwad) i wella'u dealltwriaeth a'u hyder wrth ddiwallu anghenion disgybl.

- Llinell Gymorth y Gwasanaeth Seicoleg Addysg
- Goruchwyliaeth ELSA
- Ymgynghoriad Grŵp

**Archwilio Anghenion (Cam B) - Ymgynghori a Llunio**

**Cais GSA am Ymyrraeth trwy'r PORTH**

**Seicolegydd Addysg yn cofnodi'r ymyrraeth Cam B ac yn ei rhannu â'r ysgol / y teulu / gweithwyr proffesiynol**

- Ymgynghori ac Adolygu GSA

  (Staff yr ysgol, rhieni/gwarcheidwaid, disgyblion a/neu Weithwyr Proffesiynol)
- Cyfarfod Carfan o Amgylch y Plentyn neu Gyfarfod Amlasiantaeth

**Diwallu Anghenion**

**(Cam C) - Ymyrraeth / Gwaith Uniongyrchol gyda pherson ifanc**

Natur ymyrraeth y Seicolegydd Addysg yn seiliedig ar ymgynghoriad a lluniad blaenorol. Cofnodi ymyrraeth Cam C ac yn ei rhannu â'r ysgol / y teulu / gweithwyr proffesiynol

- Ymyrraeth Uniongyrchol â'r disgybl
- Cymorth Therapiwtig

# Model Gweithredu'r Gwasanaeth Cymorth Dysgu

**Gweithio systemig**

Mae cymorth i ysgolion ar y lefel yma'n canolbwyntio'n bennaf ar ymgorffori arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ogystal â pholisi a gweithdrefnau cadarn.

**Cymorth Cyffredinol/wedi'i Dargedu gan yr Ysgol**

Datblygu dulliau ataliol gyda'r nod o wella'r ddarpariaeth gyffredinol sydd ar gael mewn ysgolion. Mae'r cymorth yma i ysgolion yn ceisio gwella dealltwriaeth a hyder staff wrth ddiwallu anghenion dysgu disgyblion.

**Archwilio Anghenion**


Darparu cymorth i ysgolion i helpu i sicrhau eu bod nhw'n gweithredu ymateb graddedig cryf. Yn ogystal â hynny, datblygu cynlluniau gweithredu pwrpasol ar gyfer disgyblion gan ddefnyddio adnoddau sy'n bresennol yn yr ysgol yn barod, a gan seilio'r cynllun ar broffil anghenion.

Dylai'r gwaith yma hwyluso gweithredoedd pwrpasol i ddiwallu anghenion disgyblion unigol a'r sawl sy'n rhoi cymorth iddyn nhw

**Diwallu Anghenion**

Mae'r gwaith yma'n help i ddeall yn well natur sylfaenol anghenion dysgu ychwanegol y disgybl, a/neu ddifrifoldeb ei anghenion.

Bydd y gwaith yma'n cynnwys proses asesu fanwl a all gynnwys amrywiaeth o wahanol ddulliau, yn dibynnu ar anghenion sylfaenol y disgybl a sut mae'n cyflwyno ar hyn o bryd.



**Gweithio Systemig**

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn darparu gwasanaethau i ysgolion i wella eu dulliau systemig er mwyn hyrwyddo mynediad disgyblion at ddysgu a chynhwysiant. Mae cymorth i ysgolion ar y lefel yma'n canolbwyntio'n bennaf ar ymgorffori arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ogystal â pholisi a gweithdrefnau cadarn.

**Nodwch:** *Does dim angen caniatâd rhieni i fanteisio ar y cam cymorth yma.*

| Gwasanaeth Seicoleg Addysg | Gwasanaeth Cynnal Dysgu |
|---|---|
| Ymweliadau Cynllunio/Cynllunio Cydweithredol<br>Cynllun Gweithredu Pwrpasol | Cymorth pwrpasol i ysgolion / pryd cafodd blaenoriaethau gwella ysgol eu nodi |
| Prosiectau Ymchwil Gweithredol | Fforymau Cydlynwyr ADY, Gwaith Grŵp Clwstwr ADY |
| Cyngor a Chymorth Polisi | |
| Adolygu effeithiolrwydd ymyrraeth/ymyriadau yn yr ysgol a darpariaeth gynhwysol gyffredinol | |

**Cymorth Cyffredinol/wedi'i Dargedu gan yr Ysgol**

Mae'r GSA a'r GCD yn darparu dulliau ataliol gyda'r nod o wella'r ddarpariaeth gyffredinol sydd ar gael mewn ysgolion. Mae'r cymorth yma i ysgolion yn ceisio gwella dealltwriaeth a hyder staff wrth ddiwallu anghenion dysgu disgyblion.

*Nodwch: Does dim angen caniatâd rhieni i fanteisio ar y cam cymorth yma.*

| Gwasanaeth Seicoleg Addysg (Cam A) | Gwasanaeth Cynnal Dysgu |
|---|---|
| **Llinell Gymorth y Gwasanaeth Seicoleg Addysg**<br>Mae'r gwasanaeth cymorth mynediad cynnar yma'n cynnig ymgynghoriad 40 munud i staff drafod eu pryderon cyffredinol ynghylch y ffordd orau i ddiwallu anghenion disgyblion.<br><br>Mae hwn yn **wasanaeth dienw** (RHAID peidio ag enwi disgyblion unigol). Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol sy'n rheoli mynediad i'r gwasanaeth. | Mae'r gwasanaeth yma'n darparu cyngor ac arweiniad arbenigol mewn perthynas â maes anghenion penodol.<br><br>**Sesiynau Galw Heibio Maes Anghenion**:<br>Mae'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn cynnig sesiynau galw heibio rheolaidd i drafod unrhyw feysydd o anghenion gyda staff arbenigol.<br><br>Mae croeso i unrhyw aelod o staff ysgol fynd i'r sesiynau i drafod unrhyw heriau penodol sydd ganddyn nhw wrth ddarparu cymorth dysgu, heb yr angen i gyfeirio at unigolyn penodol. |
| **Ymgynghoriad Grŵp:**<br>Dyma ddull datrys problemau grŵp sy'n cael ei hwyluso gan Seicolegydd Addysg gyda staff ledled y clwstwr (gall ysgolion nodi'r person mwyaf addas i fynd bob tro). Caiff sesiynau eu cynnal bob hanner tymor gan y Seicolegydd Addysg cyswllt. | |
| **Goruchwyliaeth Grŵp:**<br>Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn darparu goruchwyliaeth reolaidd i staff sydd â rhai cymwysterau arbennig mewn ysgolion (Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol [ELSA], TIS) | |
| **Cyfleoedd Dysgu Proffesiynol:**<br>Mae'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn darparu nifer o wahanol gyfleoedd dysgu proffesiynol mewn amrywiaeth o fformatau, er mwyn gwella gallu'r ysgol i ddiwallu anghenion ei disgyblion.<br>Rhaglen Dysgu Proffesiynol 2022/2023 \| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)<br>*Mae sesiynau wedi'u teilwra'n arbennig ar gael hefyd*. | |

**Y broses o ofyn am ymyrraeth y Gwasanaeth Seicoleg Addysg neu'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu mewn perthynas ag unigolyn.**

Am gymorth sy'n gysylltiedig â disgybl unigol a enwir neu pan fydd angen archwiliad pellach o angen neu gymorth uniongyrchol, mae rhaid gwneud **cais am ymyrraeth**. Caiff y cais ei wneud trwy'r porth proffesiynol. Mae gan y Gwasanaeth Cynnal Dysgu a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg ofynion hanfodol er mwyn ymyrryd. Gwelwch y tabl isod;

| Gwasanaeth Seicoleg Addysg | Gwasanaeth Cynnal Dysgu |
|---|---|
| Mae rhaid **bod yr ysgol** wedi trafod yr achos perthnasol gyda'i Seicolegydd Addysg cyswllt er mwyn cytuno ar y dull gweithredu mwyaf priodol, a hynny'n seiliedig ar y wybodaeth yn y cais. **(Fydd ceisiadau sydd ddim wedi dod i sylw'r Seicolegydd Addysg o flaen llaw ddim yn cael eu prosesu).**<br><br>Dylai tystiolaeth gadarn o gymorth cyffredinol a chymorth wedi'u targedu fod yn amlwg. Dylai fod gan yr ysgol wybodaeth dda am anghenion cymhleth y disgybl a'r strategaethau mae'r ysgol eisoes wedi rhoi cynnig arnyn nhw.<br><br>Ar ôl cytuno â'r Seicolegydd Addysg cyswllt, dylai'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ddefnyddio'r Porth i gyflwyno cais am ymyrraeth y Gwasanaeth Seicoleg Addysg.<br><br>**Rhaid** cael Cydsyniad Rhiant cyn i waith gyda seicolegydd Addysg ddechrau.<br><br>*Rhaid i slip cydsynio sydd wedi ei lofnodi a'i ddyddio gan riant/gwarcheidwad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gael ei gynnwys yn rhan o'r cais am ymyrraeth. Mae'n corff rheoleiddio ni, sef y Cyngor Gofal ac Iechyd a Gweithwyr Proffesiynol yn gofyn am gydsyniad rhiant/gwarcheidwad.* | Proffil Amdanaf i<br><br>Lefelau Academaidd cyfredol a chynnydd dros amser<br><br>Tystiolaeth o weithredu addasiadau rhesymol a/neu addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel (e.e. Cyngor a gafodd ei roi i'r athro gan y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol)<br><br>Tystiolaeth o weithgaredd yr ysgol i nodi angen (asesu) a gweithredu dulliau wedi'u targedu mewn ymateb i'r anghenion a gafodd eu nodi. Bydd tystiolaeth o ymyrraeth wedi'i thargedu yn cynnwys o leiaf 2 gylch ymyrraeth gyda dogfennau ategol e.e. CDU/CAU/cynllun chwarae/CYU/cynllun gofal iechyd. Gall cylch amrywio o ran hyd yn dibynnu ar lefelau angen y plentyn neu'r person ifanc ac ymatebion i gymorth. Fel arfer bydd pob cylch unigol yn para 6 wythnos neu fwy, a gall bara'n hirach nag un tymor hyd yn oed.<br><br>Tystiolaeth o fynediad at ddysgu proffesiynol perthnasol: dylai hyn gynnwys enwau a swyddogaethau staff, dyddiad y dysgu a'r darparwr. Dylai'r dogfennau uchod ddangos yn glir y rhan mae'r oedolyn yn ei chwarae yn addysg y disgybl.<br><br>Tystiolaeth o gamau sydd wedi'u cymryd yn unol â chyngor gan weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r plentyn (e.e. iechyd, ymyrraeth blynyddoedd cynnar, Seicoleg Addysg).<br><br>Asesiad risg os oes un ar waith. |

| | |
|---|---|
| | Am geisiadau yn ymwneud â nam ar y clyw a nam ar y golwg, gwybodaeth o Offthalmoleg neu Awdioleg, mae'n bosibl y bydd yr adran Iechyd yn gwneud atgyfeiriad at y gwasanaeth perthnasol. |

**Archwilio Anghenion**

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn darparu cymorth i ysgolion i helpu i sicrhau eu bod nhw'n gweithredu ymateb graddedig cadarn. Mae'r gwasanaethau hefyd yno i gytuno ar ffyrdd ymlaen, ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu pwrpasol ar gyfer disgyblion, gan ddefnyddio adnoddau sy'n bresennol yn yr ysgol yn barod a gan seilio'r cynllun ar broffil anghenion.

Dydy gwaith o'r natur yma ddim bob tro'n cynnwys asesiad uniongyrchol o ddisgybl. Ei brif bwrpas yw deall y pryderon sydd gan oedolion ynghylch dysgu disgybl (athro, rhiant/gwarcheidwad) i ystyried ffordd ymlaen sy'n rhoi cymorth i'r disgybl.

Dylai'r gwaith yma hwyluso cynllun i ddiwallu anghenion disgyblion unigol a'r sawl sy'n rhoi cymorth iddyn nhw.

| Gwasanaeth Seicoleg Addysg (Cam B) | Gwasanaeth Cynnal Dysgu |
|---|---|
| **Ymgynghoriadau a Chyfarfodydd Amlasiantaethol Cam B:**<br><br>Caiff pob ysgol yn RhCT nifer arbennig o ymweliadau sydd wedi'u neilltuo gyda Seicolegydd Addysg. Mi fydd ef/hi yn ymgynghori â staff, teuluoedd, y disgybl a gweithwyr proffesiynol eraill. Bydd yr ysgol a'r Seicolegydd Addysg yn cytuno ar y sesiynau yma cyn i gais gael ei wneud.<br><br>Byddai'n ddefnyddiol o bosibl i arsylwi cyd-destun dosbarth a chasglu Llais y Disgybl i helpu i ddatblygu dealltwriaeth dda o gryfderau ac anghenion y disgybl. | **Brysbennu y Gwasanaeth Cynnal Dysgu:**<br><br>Bydd ceisiadau am ymyrraeth y Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn cael eu brysennu gan y Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig perthnasol a/neu'r garfan addysgu arbenigol. Bydd y broses yma'n arwain at un neu fwy o'r camau gweithredu canlynol<br>• Galwad ffôn Cyngor a Chymorth Problemau<br>• Ymweliad â'r ysgol<br>• Cyfeirio at ddysgu proffesiynol<br>• Carfan o amgylch y plentyn yn cwrdd i roi cyngor (a chymorth)<br>• Cymorth ysgol gyfan |

| | |
|---|---|
| **RHAID** i riant gydsynio i gael ymyrraeth Seicolegydd Addysg i weithredu'r cam yma. | • Ymgynghori â/cyfeirio at garfan gwahanol yn yr Adran Mynediad a Chynhwysiant<br>• Dychwelyd y cais os yw'n anghyflawn neu'n brin o fanylion i wneud penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth<br><br>Does dim angen rhoi Cydsyniad Rhiant er mwyn i'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu fod yn rhan o'r broses, ond mae'r cam yma'n gofyn bod rhieni'n cael gwybod am y cais. |

**Penderfynu**

Mae gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu systemau i ystyried difrifoldeb a chymhlethdod anghenion disgyblion, cadernid y cymorth sy'n cael ei roi, ac i adolygu gweithredoedd cytûn. Mae'r broses yma'n bwysig i wneud penderfyniadau gwybodus a rhesymegol, i gynllunio ffordd ymlaen ac ystyried a oes angen ymyrraeth a chynnwys pellach.

| Gwasanaeth Seicoleg Addysg | Gwasanaeth Cynnal Dysgu |
|---|---|
| **Cyfarfodydd llunio a myfyrio y Gwasanaeth Seicoleg Addysg**<br><br>Mae carfan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg yn cynnal sesiynau wythnosol i drafod fformwleiddiadau achos parhaus ac i sicrhau bod dull y garfan gyfan yn gyson. | **Brysbennu/Panel y Gwasanaeth Cynnal Dysgu**<br><br>Mae ceisiadau i'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn cael eu brysbennu bob wythnos, gyda phaneli ar gyfer cymorth mwy dwys yn cael eu cynnal bob hanner tymor i benderfynu ar y camau nesaf mwyaf priodol. |

**Diwallu Anghenion**

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn darparu cymorth uniongyrchol a/neu asesiad ac ymyrraeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Mae'r gwaith yma'n help i ddeall yn well natur sylfaenol anghenion dysgu ychwanegol y disgybl, a/neu ddifrifoldeb ei anghenion.

Bydd y gwaith yma'n cynnwys proses asesu fanwl a all gynnwys amrywiaeth o wahanol ddulliau, yn dibynnu ar anghenion sylfaenol y disgybl a sut mae'n cyflwyno ar hyn o bryd.

| Gwasanaeth Seicoleg Addysg | Gwasanaeth Cynnal Dysgu |
|---|---|
| Asesiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a llais y disgybl | Ymweliad Ymgynghori i Drafod Anghenion |
| Arsylwi disgybl a'r ffordd mae'n ymgysylltu yn yr ystafell ddosbarth | Cymorth Ymgynghorol |
| Asesiad gan y Rhiant neu Athro | Asesiad Statig (Crynodol) |
| Asesiad Crynodol/Statig | Asesiad Dynamig (ffurfiannol) |
| Asesiad Dynamig (ffurfiannol) | Arsylwi |
| Cymorth Therapiwtig | Hyfforddi/Modelu mewn perthynas â darparu rhaglenni dysgu penodol |
| Hyfforddi/Modelu a chyfleoedd dysgu proffesiynol mewn perthynas â darparu rhaglenni dysgu penodol | Addysgu Uniongyrchol a chymorth dwys ar lefel ysgol. |

# Gwybodaeth Gwasanaeth Ychwanegol

## Anghenion Synhwyraidd a Meddygol Corfforol

Yn RhCT mae adnoddau sylweddol ar gael i blant a phobl ifainc sydd ag anghenion synhwyraidd a chorfforol/meddygol er mwyn sicrhau bod modd iddyn nhw fanteisio ar gyfleoedd addysg brif ffrwd gynhwysol. O ganlyniad i'r ymgynghoriad â Phrifathrawon ynglŷn â dyrannu Cyllid Anghenion Ychwanegol i ysgolion, mae'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant bellach yn cynnal panel Corfforol/Meddygol misol. Mae modd i ysgolion cynradd ofyn i'r panel am well cyllid capasiti i gynorthwyo ag anghenion corfforol a/neu feddygol eu disgyblion.

### Anabledd

2.25 Fydd dim ADY gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag anabledd (fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Oni bai bod gan blentyn ADY oherwydd mae anhawster dysgu ganddo sy'n gofyn am DDdY, bydd plentyn neu berson ifanc dim ond ag ADY10 os ydy ei anabledd yn ei rwystro rhag defnyddio'r un cyfleusterau addysgol neu hyfforddi sy'n cael eu darparu'n gyffredinol ar gyfer plant eraill o'r un oed mewn ysgolion a gynhelir prif ffrwd neu Sefydliadau Addysg Uwch prif ffrwd.

2.26. Dydy ADY ddim o reidrwydd yn anabledd sy'n effeithio ar fynediad i gyfleusterau addysgu neu hyfforddi ym mhob maes dysgu. Mae modd iddo fod yn nam corfforol, er enghraifft, sy'n effeithio ar fynediad i gyfleusterau addysg gorfforol yn unig, ac yn galw am DDdY yn y pwnc yna'n unig. Efallai bod plentyn neu berson ifanc yn cyflawni'n dda ar draws pob maes o'r cwricwlwm. Serch hynny, mae'n bosibl bod ADY ganddo fe o ganlyniad i'w anabledd os ydy e mewn sefyllfa lle nad oes modd iddo fanteisio'n llawn ar gyfleusterau addysgu neu hyfforddi heb DDdY.

2.27. Mae rhai mathau o anabledd lle mae natur yr anabledd yn golygu ei bod hi'n debygol y bydd gan y disgybl ADY. Er enghraifft, mae rhaid i awdurdodau lleol sefydlu a chynnal cofrestr o'r unigolion hynny yn eu hardal lle mae'r nam sydd ar eu golwg neu ar eu clyw, neu gyfuniad o'r ddau, yn cael effaith sylweddol ar eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae plant neu bobl ifainc ar y gofrestr yma'n fwy tebygol o fod ag ADY gan fod y nam yn debygol o'u hatal neu eu rhwystro nhw rhag defnyddio cyfleusterau addysgol neu gyfleusterau hyfforddi. Er na ddylid tybio hynny, mae'n debygol y bydd galw am DDdY.

**Cyflyrau Meddygol**

2.31. Mae modd i gyflyrau meddygol gael effaith sylweddol ar brofiadau plentyn neu berson ifanc, ac ar y ffordd y maen nhw'n gweithredu yn yr ysgol neu mewn lleoliad addysg bellach. Mewn rhai achosion mae modd i hyn arwain at anhawster neu anabledd dysgu. Mae'n bosibl i'r cyflyrau meddygol yma gael effaith uniongyrchol. Hynny yw, mae modd i alluoedd gwybyddol a chorfforol plentyn, a'i ymddygiad neu gyflwr emosiynol gael eu heffeithio. Ar y llaw arall, mae effaith anuniongyrchol hefyd yn bosibl, er enghraifft amhariad ar ei addysg trwy effeithiau digroeso yn sgil triniaeth, neu effeithiau seicolegol posibl ar blentyn neu berson ifanc a'i deulu yn sgil anabledd difrifol neu gronig.

2.32. Fodd bynnag, fydd pob plentyn a pherson ifanc â chyflwr meddygol, ddim ag ADY. Yn yr un modd â dysgwyr eraill, y cwestiwn bob amser yw a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am DDdY. Mewn rhai achosion, fydd dim anhawster dysgu nac anabledd gan blentyn neu berson ifanc sy'n dioddef o gyflwr meddygol. Hyd yn oed os oes anhawster dysgu neu anabledd ganddo, fydd rheiny ddim yn galw am DDdY. Yn yr achosion yma, dylai anghenion y plentyn neu'r person ifanc gael eu diwallu trwy ddulliau eraill.

2.33. Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar Roi Cymorth i Ddisgyblion ag Anghenion Gofal Iechyd yn mynd i'r afael â'r trefniadau sydd angen i ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol eu gwneud er mwyn cynorthwyo disgyblion o dan 18 oed ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys yr anghenion sy'n codi o gyflwr meddygol.

## Atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Cyflawniad Aml Ethnig (MEAS)

Er mwyn cael cymorth gan y Gwasanaeth Cyflawniad Aml Ethnig mae rhaid i ysgolion gyflwyno atgyfeiriad trwy'r Porth gyda brasamcan o safonau iaith Saesneg y disgybl yn seiliedig ar gamau A i E Llywodraeth Cymru a chaniatâd rhieni. I lawer o ddisgyblion, mae Saesneg yn iaith ychwanegol, ac fe fydd angen cymorth ychwanegol arnyn nhw i gyflawni'u potensial. Dydy hynny ddim yn golygu bod anghenion dysgu ychwanegol ganddyn nhw. Dylai ysgolion ofyn am gyngor gan Garfan y Gwasanaeth Cyflawniad Aml Ethnig yn y lle cyntaf os ydyn nhw'n credu bod disgybl â Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd arafach na'r disgwyl.

## Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant - Cwestiynau Cyffredin:

### A oes modd i'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu wneud cais am asesiad gan Seicolegydd Addysg?

Nac oes. Does dim modd i'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg na'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu wneud cais uniongyrchol am ymyrraeth gan y gwasanaeth arall. Fodd bynnag, gyda chaniatâd y rhiant, byddan nhw'n aml yn trafod anghenion disgyblion ar y cyd.

### A oes angen i ddisgybl fod wedi cael 2 dymor o gymorth gan y Gwasanaeth Cynnal Dysgu cyn gofyn i'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg fod yn rhan o gymorth y disgybl?

Nac oes. Mae ceisiadau'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg i fod yn rhan o gymorth y disgybl, yn annibynnol o'i gilydd.

- Mae'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn gofyn am ddau **gylch** ymyrraeth i dderbyn cais.
- Does dim meini prawf sefydlog gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg ar gyfer gwneud cais, ond mae gofyn am dystiolaeth gadarn o gymorth cyffredinol a chymorth wedi'i dargedu.

### Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg neu'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu wedi argymell cynnwys y gwasanaeth arall, beth ydw i'n ei wneud?

Weithiau mae modd i weithwyr proffesiynol o naill ai'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu neu'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg awgrymu bod ysgolion yn cysylltu â gwasanaethau perthnasol eraill i fynd i'r afael â'u pryderon. Fodd bynnag, bydd gofyn i ysgolion bob amser ddilyn y broses berthnasol i gael mynediad at wasanaeth cymorth ar gyfer y Gwasanaeth Seicoleg Addysg neu'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu (gweler y tabl uchod).

### Rydw i eisiau i ddisgybl gael ei ystyried ar gyfer Lleoliad Arbenigol, a oes angen asesiad Seicolegydd Addysg arnaf i?

Ddim o reidrwydd. Swydd y Seicolegydd Addysg yw eich helpu chi i ddeall anghenion y disgybl a sicrhau bod yr ysgol yn darparu DDdY gadarn a phriodol. Mae modd i'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg eich helpu chi yn y broses yma, ond cyn belled â bod tystiolaeth glir gyda chi yn ymwneud â difrifoldeb yr angen, ac ymateb graddedig cadarn, does dim o reidrwydd angen asesiad Seicolegydd Addysg arnoch chi i gael mynediad at ddarpariaeth. Yr hyn sydd bwysicaf yw ansawdd y ddarpariaeth rydych chi'n ei darparu a gwerthusiad o'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gynnydd disgyblion.

**Mae'n ymddangos bod modelau Darpariaeth y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu yn gohirio asesiad uniongyrchol o ddisgybl. Ydy hyn yn gywir?**

Mae modelau'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu yno i gynorthwyo ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon. Ar gyfer y ddau wasanaeth, mae'r 'dull archwilio anghenion' (Cam B/Brysbennu) yn hanfodol er mwyn cymryd camau gwybodus a rhesymegol gan ystyried unrhyw asesiad/ymyrraeth bellach sydd ei angen o bosibl, a ffocws penodol y gwaith yma.

**Rwy'n teimlo bod angen asesiad gwybyddol i fod yn glir ynglŷn ag anghenion y disgybl. Pam na fydd y Seicolegydd Addysg yn gwneud hyn?**

Mae Seicolegwyr Addysg yn defnyddio ystod o wahanol ddulliau asesu i archwilio anghenion disgyblion. Trwy ddilyn y model Darparu Gwasanaeth mae'n RHAID i unrhyw ymyrraeth gan y Seicolegydd Addysg gael ei lywio bob amser gan ragdybiaeth a lluniad clir (yr hyn sydd ddim yn hysbys neu y mae angen edrych i mewn iddo'n fwy manwl), a bydd y Seicolegydd Addysg unigol yn penderfynu ar hwn. Bydd eich Seicolegydd Addysg yn hapus i drafod gyda chi'r rhesymeg dros y dull gweithredu mae ef/hi wedi'i ddewis.

**A oes modd i mi wneud cais am gynnwys y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu ar yr un pryd?**

Dydyn ni ddim yn cynghori i chi wneud hyn. Ystyriwch y gwasanaeth mwyaf priodol i ddiwallu anghenion eich disgybl ar hyn o bryd. Defnyddiwch y canllaw uchod i'ch helpu chi i wneud y penderfyniad cywir. Er bod y Gwasanaeth Cynnal Dysgu a'r Gwasanaeth

Seicoleg Addysg yn rhan o Wasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, mae ganddyn nhw gylch gwaith ac arbenigedd penodol a all eich helpu chi mewn gwahanol ffyrdd.